

Sioc a dicter wrth i gymorth gael ei dynnu'n ôl ar gyfer ffermwyr organig sy'n ystyriol o natur yng Nghymru

Annwyl Brif Weinidog

Rydym ni – busnesau, cynhyrchwyr bwyd a sefydliadau ffermio ac amgylcheddol – yn eich annog i ailystyried cynlluniau eich llywodraeth i dynnu cymorth yn ôl ar gyfer ffermio organig yng Nghymru.

Bydd tynnu cymorth yn ôl ar gyfer ffermio organig yn arwain at ganlyniadau economaidd ac amgylcheddol difrifol yng Nghymru. Mae'r penderfyniad yn achosi risg ddifodol i allu sector bwyd a ffermio Cymru i gyflawni ein rhwymedigaethau hinsawdd, natur a diogelwch bwyd. Mae'n debygol o ysgogi ffermwyr organig i adael y diwydiant yn llu, gan wneud niwed tymor hir i'r sector.

Mae gwyddonwyr ac economegwyr yn cytuno bod ffermio organig yn system hynod effeithiol ar gyfer darparu buddion cyhoeddus – hinsawdd, natur a chymdeithasol. Ar gyfartaledd, mae ffermydd organig yn cynnal 50% yn fwy o fywyd gwyllt na rhai nad ydynt yn organig. Mae amaethyddiaeth organig yn allyrru llai o nwyon tŷ gwydr fesul hectar trwy beidio â dibynnu ar wrteithiau sy'n deillio o danwydd ffosil a phlaleiddiaid cemegol.

Ers dros 40 mlynedd, mae Cymru wedi arwain y Deyrnas Unedig wrth ddatblygu'r mudiad bwyd a ffermio organig. Mae Cymru bellach yn nodedig ymhlith gwledydd y Deyrnas Unedig o ran cyfran yr arwynebedd tir yr ardystiwyd ei fod yn organig, sy'n cael ei drin gan ffermwyr sydd wedi ymrwymo'n gadarn i egwyddorion Rheoli Tir yn Gynaliadwy ac sy'n barod i gyflawni mwy.

Mae Llywodraeth Cymru wedi chwarae rôl allweddol wrth gefnogi twf y sector hwn yng Nghymru ac fe all ymfalchio yn y cyflawniadau hynny. Ond bellach mae'n edrych yn debygol y bydd degawdau o fuddsoddiad mewn priddoedd iach, ffermydd natur-gyfoethog a busnesau bwyd arloesol yn mynd yn ofer os nad oes cymorth ar gyfer organig, gan ddechrau gyda'r Cynllun Amaeth-amgylcheddol Interim yn 2024.

Rydym yn synnu bod Llywodraeth Cymru yn edrych fel petai ar fin gwrthod enghraifft o ffermio cynaliadwy a gydnabyddir yn fyd-eang ac a gefnogir gan dystiolaeth wyddonol. Byddai penderfyniad o'r fath yn tanseilio rhinweddau Cymru yn rhyngwladol fel gwlad amgylcheddol gynaliadwy ar adeg pan mae gwledydd eraill yn buddsoddi'n drwm mewn cefnogi eu cadwyni cyflenwi organig eu hunain ac y byddent yn fwy na pharod i gyflenwi ein marchnadoedd. Mae ardystiad organig yn feincnod a gydnabyddir yn rhyngwladol ac, fel y cyfryw, yn basbort i farchnadoedd allforio gwerth ychwanegol; mae cefnu ar hynny hefyd yn cefnu ar gyfle ar gyfer allforion o ansawdd o Gymru.

Mae'r cyhoedd yn cefnogi cynnyrch organig yn gryf er bod y sector dan bwysau mawr oherwydd yr argyfwng costau byw a chostau fferm sy'n codi. Ysgogodd y cyhoeddiad diweddar ynglŷn â'r Cynllun Amaeth-amgylcheddol Interim rwystredigaeth eang a siom dwys ymhlith cynhyrchwyr a phroseswyr.

Fe'ch anogwn i ymrwymo cyllideb i gefnogi'r sector organig yn y cynlluniau newydd; mae hyn yn rhoi adenillion cwbl amlwg ar y buddsoddiad i Gymru. Gallai tynnu cymorth yn ôl nawr ddod yn gamgymeriad o arwyddocâd hanesyddol ac yn gamdybiaeth wleidyddol enfawr, gan roi ffermwyr a thyfwr organig arloesol Cymru dan anfantais yn y Deyrnas Unedig ac mewn mannau eraill.

Mae Fforwm Organig Cymru yn galw am gyfarfod brys ynglŷn â'r mater hwn. Rydym yn cynnig gweithio gyda'r Gweinidog Materion Gwledig, Lesley Griffiths, a'i thîm, fel yr ydym wedi gwneud

yn y gorffennol, i ddod o hyd i ffordd ymlaen er mwyn sicrhau dyfodol ar gyfer y sector organig y gallwn i gyd barhau i ymfalchïo ynddo.

Mae'r busnesau a'r sefydliadau canlynol yn cytuno ar y mater pwysig hwn:

Iestyn Tudur-Jones - Rheolwr Cyffredinol, Welsh Lamb and Beef Producers Ltd

Caroline Sherrott - Uwch Reolwr Ardystio, Soil Association Certification

Steven Jacobs - Rheolwr Datblygu Busnes, Ffermwyr a Thyfwyr Organig

Cristina Dimetto - Rheolwr Gyfarwyddwr, Organic Trade Board

Alan Prior - Rheolwr Gyfarwyddwr, Rachel's Organic

Laurence Harris a Dr Tom Harris - Daioni Organic Ffermydd Ffosyficwr

Leisia Tudor - Rheolwr Amaethyddiaeth Cig Oen, Dunbia

Lord Newborough - Perchennog Fferm a Busnes, Rhug Estate

Patrick Holden - Sylfaenydd a PSG, Ymddiriedolaeth Bwyd Cynaliadwy

Hywel Morgan - Cadeirydd y Rhwydwaith Ffermio, sy'n Ystyriol o Natur yng Nghymru

Holly Tomlinson - Cydlynnydd Polisi Cymru, Gweithwyr y Tir

Gary Mitchell - Cyd-reolwr Cymru, Ffermydd a Gerddi Cymdeithasol Cymru

Jimmy Woodrow - PSG, Pasture for Life

Alun Prichard - Cyfarwyddwr, RSPB Cymru

Rachel Sharp - Cyfarwyddwr, Ymddiriedolaeth Natur Cymru

Gareth Clubb - Cyfarwyddwr, WWF Cymru

Lhosa Daly - Cyfarwyddwr, Ymddiriedolaeth Genedlaethol Cymru